**PWYLLGOR Y GRONFA DATBLYGU CYNALIADWY**

**25 Ionawr 2017**

Yn bresennol: Y Cynghorydd Mrs L Jenkins, y Cynghorydd DWM Rees a Mr AE Sangster; y Cynghorydd RM Lewis a'r Cynghorydd M Williams, Mr G Davies (Cyfoeth Naturiol Cymru), Mr P Howe (Cyngor Sir Penfro), Ms L Livock (Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro), Mr R Smith (Menter Busnes Sir Benfro) a Ms L Williams (Twristiaeth Sir Benfro).

(Swyddfa APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00-12.30)

**1. Penodi Cadeirydd**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** i benodi Mr AE Sangster yn Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn.

**2. Penodi Dirprwy Gadeirydd**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** i benodi'r Cynghorydd RM Lewis yn Ddirprwy Gadeirydd am y flwyddyn.

**3. Ymddiheuriad am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth Mr S Bradley (PLANED).

**4. Datgelu Buddiant**

Datgelodd y Cynghorydd L Jenkins fuddiant personol, ond nid niweidiol, ym mhrosiect SDF 0364 Gofal Solfach, ond arhosodd yn y cyfarfod yn ystod y drafodaeth; datgelodd Mr AE Sangster fuddiant niweidiol ym mhrosiect SDF 0367 Llesiant a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.

**5. Cofnodion**

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mai 2016 eu cyflwyno i'w cadarnhau a'u llofnodi.

**PENDERFYNWYD** bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mai 2016 yn cael eu cadarnhau a'u llofnodi.

**6. Materion sy'n codi**

a) <u>Adroddiad am y Diweddaraf am y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (Cofnod 4)</u>

Nodwyd, yn dilyn ymgynghoriad gyda Llywodraeth Cymru, na fu'n angenrheidiol i gynnig y cymorth grant i Lif Llanw Strwmbl, Naturally Connected / Cysylltiadau Naturiol, na Choleg y Môr fel De Minimus o dan y Rheoliadau Cymorth Gwladol.

**7. Adroddiad am y Diweddaraf am y Gronfa Datblygu Cynaliadwy**

Roedd adroddiad Gweinyddwr y Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn amlinellu'r pum cais a oedd gerbron y Pwyllgor i'w hystyried y diwrnod hwnnw. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am yr holl brosiectau cyfredol a'u cynnydd.

Aeth yr adroddiad ymlaen i esbonio bod cymeradwyaeth wedi'i rhoi gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn Awst 2016 ar gyfer estyniad o ddeuddeg mis i dymor Aelodau Ymgynghorol presennol y Pwyllgor. Gan iddynt ddechrau ar eu penodiad yn Awst 2012, bydd hyn yn golygu y bydd eu penodiad yn para hyd at fis Awst 2017. Gofynnwyd a chymeradwywyd yr estyniad i ganiatáu adolygiad cynhwysfawr o Bolisi a Chanllawiau'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy cyn dewis Aelodau Ymgynghorol newydd neu ailbenodi. Roedd yr adolygiad wedi ei drefnu i ddechrau ym mis Chwefror 2017.

Nodwyd fod adolygiad o'r cymorth ariannol a ddyfarnwyd i brosiectau rhwng 2000 a 2016 wedi'i gynnal ar gais Pwyllgor Adolygu Gwasanaethau Archwilio a Chorfforaethol yr Awdurdod. Roedd yr Aelodau'n dymuno canfod a oedd yr arian cyhoeddus wedi cael ei wario'n ddoeth, ac roedd hynny'n cynnwys gwerthusiad i weld a yw prosiectau a gafodd arian yn dal yn weithredol heddiw. Rhoddwyd crynodeb o'r prif ganfyddiadau yn yr adroddiad, a byddai Gweinyddwr y Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn anfon copi o'r adroddiad llawn at bob aelod o'r Pwyllgor.

Yna, aeth Gweinyddwr y Gronfa Datblygu Cynaliadwy ymlaen i gyflwyno'r sefyllfa ariannol. Dywedodd fod yr Awdurdod wedi bod â chronfa wrth gefn wedi'i neilltuo ar gyfer gwariant y Gronfa Datblygu Cynaliadwy ers nifer o flynyddoedd. Defnyddiwyd y gronfa hon i ychwanegu at y gwariant yn ystod y flwyddyn, ond tybiwyd mai doeth fyddai ei defnyddio ar gyfer 2017/18 yn unig i ychwanegu £100,000 at y rhaglen. Felly, roedd y Gronfa Datblygu Cynaliadwy wedi cael £200,000 ar gyfer y flwyddyn. Roedd arwyddion y byddai yna hefyd arian heb ei ymrwymo o £1580 i'w gario ymlaen o flwyddyn ariannol 2016-17. Roedd hyn yn golygu bod digon o gyllid ar gael i gefnogi'r holl geisiadau sy'n cael eu hystyried y diwrnod hwnnw pe byddent yn deilwng o gefnogaeth. Byddai rhagor o arian yn dal i fod ar gael ar gyfer prosiectau posibl eraill yn 2017-18.

O ran cynllun y Grant Bach Gwyrdd, rhoddwyd manylion am saith prosiect a oedd wedi derbyn cefnogaeth yn 2016-17. Soniwyd mai Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS) oedd yn gweinyddu'r cynllun ac nad oedd, hyd yma, wedi cael cydnabyddiaeth ariannol gan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy am ei gwaith. Roedd nifer y

ceisiadau i'r Gronfa wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, ac roedd hyn, ynghyd â gostyngiad yn nifer y staff yn y Gymdeithas, yn golygu y byddai tâl am ei gwasanaethau o fis Ebrill 2017 ymlaen. Ar ôl ystyried yr opsiynau ar gyfer gweinyddu'r Grant Bach Gwyrdd yn y dyfodol, daethpwyd i'r casgliad mai talu i PAVS fesul awr am ei gwaith oedd y gwerth gorau am arian ac y byddent hefyd yn cadw eu cysylltiadau sefydledig a'u rhwydweithiau cynghori gan ddarparu cefnogaeth i'r trydydd sector yn Sir Benfro.

**NODWYD.**

*[Roedd y Cadeirydd, Mr AE Sangster, wedi datgelu buddiant yng nghais SDF 0367 ac felly ymneilltuodd o'r cyflwyniad ar y cais hwnnw a'r drafodaeth a ddilynodd. Felly daeth y Dirprwy Gadeirydd i'r Gadair ar gyfer yr eitem honno.]*

**8. Ceisiadau am gyllid o dan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy**

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i bum cais newydd am gyllid o dan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy. Cafodd y ceisiadau eu hystyried yn fanwl yn erbyn meini prawf asesu y gronfa, yn dilyn cyflwyniad byr gan bob un o'r ymgeiswyr. Atgoffodd Gweinyddwr y Gronfa Datblygu Cynaliadwy yr Aelodau bod nifer o'r ceisiadau a oedd ar yr agenda y diwrnod hwnnw yn cynnwys gwybodaeth masnachol sensitif.

| Rhif Cyf | Enw'r prosiect | Cyflwyniad gan | Sefydliad |
|---|---|---|---|
| SDF 0363 | Plastics Ocean | Ni allai'r ymgeisydd fod yn bresennol yn y cyfarfod | |
| SDF 0364 | Cyfnod Datblygu Gofal Solfach | Mollie Roach<br>Fran Barker<br>Bruce Payne | Cyngor Cymuned Solfach |
| SDF 0365 | Astudiaeth Hemocyanin Slipper Limpet | Alex Mühlhölzl | Mikota Ltd |
| SDF 0366 | Rheoli Gwymon yn Gynaliadwy yn Nyfrffordd Aberdaugleddau | Joseph Kidd | GreenSeas Resources Ltd |
| SDF 0367 | Llesiant | Richard Phipps<br>Mari Williams | Cadwch Gymru'n Daclus |

Atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor, o dan ei gylch gorchwyl, fod penderfyniadau i gael eu gwneud gan Aelodau o Awdurdod y Parc Cenedlaethol, gan ystyried barn yr Aelodau Ymgynghorol a oedd yn bresennol.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD**:

(a) bod y swm llawn y gofynnwyd amcano yn cael ei roi i'r ceisiadau canlynol, yn ddarostyngedig i amodau arferol y grant ac unrhyw gafeatau ychwanegol y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod (ac a nodir isod):

- (i) SDF 0364-Cyfnod Datblygu Gofal Solfach
- (ii) SDF 0365-Astudiaeth Hemocyanin Slipper Limpet
- (iii) SDF 0366- Rheoli Gwymon yn Gynaliadwy yn Nyfrfford Aberdaugleddau – yn amodol ar ddangos bod arian ar gael ar gyfer y prosiect o ffynonellau eraill.
- (iv) SDF 0367-Llesiant – dylid rhoi blaenoriaeth i safleoedd â mynediad cyhoeddus da.

(b) gwrthod y cais canlynol:

- (i) SDF 0363 Ocean Plastics
  Cytunwyd y gellid ail-gyflwyo'r cais i'r Pwyllgor ar yr amod y darperir gwybodaeth ychwanegol.